# Trosolwg Thema
# Blwyddyn 3 a 4
# Tymor y Gwanwyn, 2026

# Thematic Overview
# Year 3 & 4
# Spring Term, 2026



## Ble mae Lesotho?

Wrth archwilio'r thema 'Ble mae Lesotho?' bydd disgyblion yn defnyddio'r Dyniaethau fel y prif faes dysgu i gymharu bywyd yng ngwlad fynyddig Lesotho â Chymru. Edrychwn ar y daearyddiaeth, gan gymharu tirweddau, hinsawdd a lleoliad y ddwy wla
d. Byddant hefyd yn archwilio bywyd bob d
ydd, addysg a thai, gan ystyried sut mae po
bl yn byw, dysgu ac yn gweithio mewn cymunedau gwahanol.

## Where is Lesotho?

When exploring the theme 'Where is Lesotho?', pupils will use the Humanities as the main area of learning to compare life in the mountainous country of Lesotho with Wales. We will study the geography, comparing the landscapes, climate and location of the two countries. They will also explore everyday life, education and housing, considering how people live, learn and work in different communities.

SLIDESMANIA.COM

# Bydd profiadau y dysgu yn canolbwyntio ar ddatblygu'r Pedwar Diben drwy ein cymeriadau...



Dysgwyr uchelgeisiol, galluog



Dinasyddion egwyddorol, gwybodus




Unigolion iach, hyderus



Cyfranwyr mentrus, creadigol

| Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu | Mathemateg a Rhifedd | Gwyddoniaeth a Thechnoleg |
|---|---|---|
| Byddwn yn dysgu sut i ysgrifennu testunau dychmygol a chreadigol. Byddwn yn dysgu sut i ysgrifennu cyfarwyddiadau a chreu portread o gymeriad. Defnyddir storiau a dull Pie Corbett i wella llafar a sgiliau ysgrifennu stori. Byddwn yn defnyddio Darllen Co, Read Write Inc a Oxford Reading Buddy i wella ein sgiliau darllen a deall. | Byddwn yn casglu data syml am boblogaeth trefi yn Lesotho ac yn eu defnyddio i greu siartiau bar, gan gysylltu'r gwaith â sgiliau mapio. Byddwn yn defnyddio graddfa ar fap i gyfrifo pellteroedd rhwng trefi yn Lesotho ac yn eu cymharu â phellteroedd yng Nghymru. Byddwn yn defnyddio arian Lesotho i ddatrys problemau arian ymarferol ac yn cymharu prisiau â'r DU. | Byddwn yn egluro bod cysgodion yn cael eu ffurfio pan fydd golau o ffynhonnell yn cael ei rwystro gan wrthrych afloyw. Byddwn yn egluro bod sain yn teithio fel dirgryniadau trwy gyfrwng i'r glust. Byddwn yn disgrifio sut mae switsh yn agor ac yn cau cylched gyfres syml a sut mae hyn yn effeithio ar oleuo lamp. Byddawn yn edrych ar y corff dynol, a phwysigrwydd ymarfer corff. |
| **Y Dyniaethau** | **Celfyddydau Mynegiannol** | **Iechyd a Lles** |
| Byddwn yn dysgu am ddaearyddiaeth Lesotho a sut mae'n wahanol i Gymru. Byddwn yn cymharu tirweddau, diwylliant a bywyd bob dydd y ddwy wlad ac yn edrych ar sut mae cymunedau'n cydweithio. | Byddwn yn archwilio sut nad yw pob ffilm neu fideo yn adrodd stori linellol, gan edrych ar fideos tawel sy'n dangos natur heb ddechrau, canol na diwedd clir. Byddwn yn dysgu am gynulleidfaoedd gwahanol ac yn creu cynnwys digidol ar gyfer cyfryngau cymdeithasol yr ysgol. | Byddwn yn dysgu am 'Breuddwydion a Dyheadau' lle bydd disgyblion yn deall sut i osod nodau, iechyd emosiynol a phwysigrwydd rhannu. Byddwn hefyd yn dysgu am 'Byw'n Iach', ble bydd plant yn dysgu am fwydydd iach ac arfer iach o ddydd i ddydd. |

SLIDESMANIA.COM

# The learning experiences will focus on developing the Four Purposes through our characters...



Ambitious, capable learners



Ethical, informed citizens



Healthy, confident individuals



Enterprising, creative contributors

| Languages, Literacy and Communication | Mathematics and Numeracy | Science and Technology |
|---|---|---|
| We will learn how to write imaginative and creative texts. We will learn how to write instructions and create a character portrait. We will use stories and skills using Pie Corbett techniques so help with oracy and story writing.We will use Darllen Co, Read Write Inc and Oxford Reading Buddy for readings. | We will collect simple data about the population of towns in Lesotho and use this to create bar charts, linking our work to map skills. We will use map scales to calculate distances between towns in Lesotho and compare them with distances in Wales. We will explore money by using the Lesotho currency, the Loti, to solve practical problems and compare prices with the UK. | We will explain that shadows form when light from a source is blocked by an opaque object. We will explain that sound travels as vibrations through a medium to the ear. We will describe how a switch opens and closes a simple series circuit and how this affects whether a lamp lights. We will expllook athe human body, and explain the importance of exercise. |

| Humanities | Expressive Arts | Health and Wellbeing |
|---|---|---|
| We will learn all about the geography of Lesotho and how it differs from Wales. We will compare the landscapes, culture and everyday life of the two countries and look at how communities work together. | We will explore how not all films or videos tell a linear story, looking at quiet videos that show nature without a clear beginning, middle or end. We will learn about different audiences and create digital content for the school's social media. | We will learn about Dreams and Aspirations, where pupils will understand how to set goals, emotional health, and the importance of sharing. We will also learn about Living Healthily, where children will learn about healthy foods and healthy daily habits. |

SLIDESMANIA.COM